



Aelodaeth Gorfforaethol





Nod Mudiad Meithrin

Nod Mudiad Meithrin yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae gan Mudiad Meithrin:

- dros 200 o staff cyflogedig yn genedlaethol a thros 1,500 o staff yn gweithio yn y Cylchoedd Meithrin.
- bron i 50 mlynedd o arbenigedd yn y blynyddoedd cynnar.
- aelodaeth o dros 1,000 o ddarpariaethau blynyddoedd cynnar ledled Cymru.





Mudiad Meithrin

Pwy yw Mudiad Meithrin?

Elusen gofrestredig sy'n arbenigo ym maes gofal ac addysg blynyddoedd cynnar ydym ni.

Rydym yn cyfrannu tuag at lywio polisi cenedlaethol a rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf gyda'r sector blynyddoedd cynnar.

Beth mae'r Mudiad yn ei wneud?

Ein nod yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. Gwnawn hyn trwy gefnogi grwpiau Cymraeg i Blant, Cylchoedd Ti a Fi, Cylchoedd Meithrin a Meithrinfeydd Dydd gan hyrwyddo addysg Gymraeg gyda'r nod o greu mwy o siaradwyr Cymraeg ifanc yng Nghymru erbyn 2050.

Twf Siaradwyr Cymraeg

Pan sefydlwyd Mudiad Meithrin yn 1971 dim ond 11.3% o blant 3-4 oed oedd yn gallu siarad Cymraeg. Erbyn Cyfrifiad 2011 - yn sgil ein gwaith ynghyd â thwf addysg Gymraeg, roedd y ffigur yma wedi tyfu i 23.3% o blant 3-4 oed yn gallu'r iaith.

Gwobrau Mudiad Meithrin

Rydym yn cydnabod a chlodfori'r holl waith da mae ein staff a gwirfoddolwyr yn ei gyflawni ar lawr gwlad yn ein darpariaethau drwy ein Seremoni Gwobrau blynyddol.





Does dim angen gallu siarad Cymraeg er mwyn gallu cefnogi'r iaith

- Rydym yn gwybod bod llawer o fusnesau yn ystyried sut gall eu cwmni wneud cyfraniad cadarnhaol i gymdeithas.
- Mae bod yn Aelod Gorfforaethol o Mudiad Meithrin yn ffordd wych i'ch cwmni neu sefydliad ddangos i'ch staff, cyflenwyr a'ch cwsmeriaid bod gennych chi ymrwymiad gwirioneddol i gefnogi'r Gymraeg a'ch bod yn cymryd dyfodol yr iaith o ddifrif.
- Mae dangos eich bod yn cefnogi'r Gymraeg fel rhan o'ch busnes yn gallu dod â mwy o gwsmeriaid drwy'r drws, yn adlewyrchu gwasanaeth lleol sy'n dangos parch at y gymuned ac yn ffordd o ennyn ffyddlondeb cwsmeriaid.
- Drwy'r bartneriaeth hon gall eich busnes gyfrannu tuag at siapio dyfodol cadarnhaol y Gymru fodern. Bydd eich cefnogaeth yn cyfrannu at ein gwaith o ddarparu cefnogaeth i ddarparwyr gofal plant a chynnig cyfleoedd arbennig i blant bach drwy ein rhaglen gyffrous o ddigwyddiadau a mentrau.





Strategaeth Cynhwysiant, Cydraddordeb ac Amrywiaeth y Mudiad

Mae cynhwysiant, cydraddoldeb ac amrywiaeth yn bwysig iawn inni, gan ein bod yn gwerthfawrogi bod yr iaith Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru. Mae gan bawb yr hawl i gael profiadau cydradd o fewn un teulu mawr Mudiad Meithrin.



Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod fod gwaith Mudiad Meithrin yn rhan ganolog o'i strategaeth ar gyfer cyrraedd targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

CYMRÆG

“Dros y pedwar degawd diwethaf, y sector gwirfoddol, dan adain Mudiad Meithrin, sydd wedi cynnal gofal meithrin cyfrwng Cymraeg, gan ddatblygu cyfleoedd i blant ledled Cymru dderbyn gofal a gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg” – dyfyniad o ddogfen strategaeth Cymraeg 2050.



Llwyddiannau Mudiad Meithrin

- Roedd un o'n cynlluniau Clwb Cwtsh ar y rhestr fer ar gyfer gwobrau Ysbrydoli Dysgu yn 2018.
- Cawsom ganmoliaeth uchel yng Ngwobrau Arwain Cymru 2018.
- Fe enillon ni'r Wobr am Ymgyrch Arloesol i Godi Arian yng Ngwobrau'r Trydydd Sector Cymru 2018, sef gwobrau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.
- Roeddem fel mudiad yn un o'r mudiadau elusennol a gyrhaeddodd y brig yng nghategori 'Mudiad y Flwyddyn' yn Seremoni Gwobrau Elusennau Cymru 2019, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.



Mae'r uchod yn dyst ein bod yn sefydliad arloesol sydd ar flaen y gad wrth osod safonau uchel. Edrychwn ymlaen at weithio yn agosach gyda chi.



Cost Aelodaeth
Gorfforaethol:

£250 y flwyddyn

Manteision aelodaeth

- Tystysgrif y Cynllun Aelodaeth Gorfforaethol
- Cydnabyddiaeth a dolen i'ch gwefan ar dudalen 'Aelodau Corfforaethol' ar ein gwefan
- Copïau electroneg o'n newyddlen dymhorol.
- Gwahoddiad i hyd at dri o'ch staff i fynychu ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (heb bleidlais)
- Adroddiad am y cynllun Aelodaeth Gorfforaethol yn 'Adroddiad Blynyddol Mudiad Meithrin'
- Gostyngiad o 10% ar amrywiaeth o gyfleoedd i'n noddi e.e. Gwobrau Mudiad Meithrin, Gŵyl Dewin a Doti, Pasiant Meithrin yn yr Eisteddfodau Cenedlaethol
- Cyfleoedd i'ch staff fynychu rhai o'n cyrsiau Academi (ein hadain hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus)





Canolfan Integredig Mudiad Meithrin
Boulevard de Saint-Brieuc
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 1PD

#MeithrinMiliwn

www.meithrin.cymru

 www.facebook.com/mudiadmeithrin

 [@mudiadmeithrin](https://twitter.com/mudiadmeithrin)

 [@mudiadmeithrin](https://www.instagram.com/mudiadmeithrin)

gweinyddol@meithrin.cymru

01970 639639



Os oes gennych chi
ddiddordeb mewn bod
yn Aelod Corfforaethol
o Mudiad Meithrin yna
cysylltwch â ni.

